# <u>HYSBYSIAD CYHOEDDUS</u>

## GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN
## (GOSOD TERFYN CYFLYMDER 30 M.Y.A.) 2026

**HYSBYSIR** trwy hyn fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), 84(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd:

(a) Gosod terfyn cyflymder 30 m.y.a. ar hyd y darnau ffyrdd, neu’r rhannau o'r darnau ffyrdd, a ddisgrifir yn fyr yng ngholofn 2 o Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, ond a ddangosir yn fwy penodol ar y cynlluniau sy'n dwyn y rhifau cyfeirnod teilsen unigryw a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 1 ar gyfer pob ardal a ddisgrifir yng ngholofn 1, y dylid eu darllen ar y cyd â'r Gorchymyn ac sy'n ffurfio rhan o'r un peth; a

(b) Dirymu “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder 20 M.Y.A.) 2023” i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darnau ffyrdd, neu'r rhannau o'r darnau ffyrdd, a ddisgrifir yn fyr yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac a ddangosir yn fwy penodol ar y cynlluniau sy'n dwyn y rhifau cyfeirnod teilsen unigryw a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen ddywededig.

Ceir manylion llawn y cynigion hyn yn y Gorchymyn drafft a gellir archwilio copi ohono, ynghyd â'r cynlluniau sy'n dangos y darnau ffyrdd yr effeithir arnynt, a Datganiad ynghylch rhesymau'r Cyngor dros fwriadu gwneud y Gorchymyn a chopi o'r gorchymyn sy'n cael ei ddirymu, yn HWB Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Sir Caerfyrddin, a leolir yn:

- Uned 22 Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin SA31 1GA;
- Rhif 41 Stryd y Cei, Rhydaman SA18 3BS; a
- Rhif 36 Stryd Stepney, Llanelli SA15 3TR

yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

Mae'r dogfennau hefyd:

- i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin ar https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/hysbysiadau-cyhoeddus; neu

- ar gael am ddim drwy ysgrifennu at Adain Rheoli Traffig y Cyngor yn Adeilad 2, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, neu drwy e-bostio ENTrafficManagement@sirgar.gov.uk.

Os ydych am wrthwynebu'r cynnig uchod, gofynnir i chi gyflwyno eich rhesymau dros wrthwynebu yn ysgrifenedig:

- drwy'r post – at Bennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP; neu

- drwy e-bost – at HeMDavies@sirgar.gov.uk,

erbyn y **5ed o Fawrth 2026**, gan nodi'r cyfeirnod ffeil isod. Rhaid i bob gwrthwynebiad neu sylw arall nodi ar ba sail y mae'n cael ei wneud.

**Dyddiedig yr 11eg o Chwefror 2026**

Cyfeirnod y Ffeil: HMD/HTTR-2024
Llinell Uniongyrchol: 01267 224066
E-bost: HeMDavies@sirgar.gov.uk

WENDY WALTERS
Y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin

## ATODLEN 1

### GOSOD CYFYNGIAD CYFLYMDER 30 M.Y.A.

| 1<br>Ardal | 2<br>Enw/Disgrifiad o'r Ffordd | 3<br>Cyfeirnod Map |
|---|---|---|
| Cydweli | Ffordd Dosbarth II (y B4308) o Gydweli i gylchfan Parc Y Bocs | V34 |
| Cwmdwyfran | Heol Cwmdwyfran | U22 a V22 |
| Cwmdwyfran | Prif Ffordd (yr A484) yng Nghwmdwyfran | V22 |
| Hermon | Ffordd y B4333 yn Hermon | S18 |
| Llan-gain | Ffordd Dosbarth II (y B4312) Llan-gain i Dre Ioan | T28 |
| Pentre Morgan | Prif Ffordd (yr A484) ym Mhentre Morgan | V21 |
| Pentrecagal | Prif Ffordd (yr A486) ym Mhentrecagal | Q11 |
| Pen-y-groes | Ffordd Gyswllt newydd o'r A476 i Heol Norton | AF30 |

# ATODLEN 2

## DIRYMU'R CYFYNGIAD CYFLYMDER 20 M.Y.A. PRESENNOL

| 1<br>**Ardal** | 2<br>**Enw/Disgrifiad o'r Ffordd** | 3<br>**Cyfeirnod Map** |
|---|---|---|
| Cydweli | Ffordd Dosbarth II (y B4308) o Gydweli i gylchfan Parc Y Bocs | V34 |
| Cwmdwyfran | Heol Cwmdwyfran | U22 a V22 |
| Cwmdwyfran | Prif Ffordd (yr A484) yng Nghwmdwyfran | V22 |
| Hermon | Ffordd y B4333 yn Hermon | S18 |
| Llan-gain | Ffordd Dosbarth II (y B4312) Llan-gain i Dre Ioan | T28 |
| Pentre Morgan | Prif Ffordd (yr A484) ym Mhentre Morgan | V21 |
| Pentrecagal | Prif Ffordd (yr A486) ym Mhentrecagal | Q11 |